# SL(5)537 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau, sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon, godi tâl am bob bag a gyflenwir. Fodd bynnag, mae Atodlen 1 i Reoliadau 2010 yn esemptio rhai mathau o fagiau untro rhag y tâl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2010 i esemptio bagiau a ddefnyddir yn unig ar gyfer danfon neu gasglu nwyddau groser rhag y tâl. Bydd hwn yn esemptiad dros dro, am gyfnod o dri mis o'r dyddiad y daw'r rheoliadau hyn i rym.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

1. Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a nodwn hefyd yr esboniad am dorri'r rheol honno a ddarparwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, i'r Llywydd mewn llythyr dyddiedig 8 Ebrill 2020. Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud am y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cawsant eu gwneud:

*"Gwnaed a gosodwyd Rheoliadau 2020 cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar sail iechyd cyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg i staff cludo cartref a chwsmeriaid eraill o ledaenu neu ddal COVID-19 yn ystod danfoniadau i gartrefi. O ganlyniad, maent wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.*

*Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 9 Ebrill 2020, ac oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, credir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**20 Ebrill 2020**